Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023



Estyn

Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023

## Addysgu a dysgu

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae rhoi agweddau ar Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn enwedig defnyddio'r ardal leol (cynefin) a chyfleoedd yn yr awyr agored, yn datblygu'n dda.
- Yn yr ychydig o achosion gorau, mae cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ystod oedran yn gryfder.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae'r addysgu yn gyson dda. Lle mae hyn yn wir, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau cymhleth ac yn gwella eu gwybodaeth bynciol yn sylweddol. Mae cryfderau cyffredin mewn addysgu yn cynnwys perthnasoedd gwaith cryf rhwng disgyblion a staff, gwybodaeth bynciol gref, rhediad priodol i'r dysgu a bodloni anghenion disgyblion unigol.

### Beth sydd angen ei wella

- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion wedi'i gydlynu'n ddigon da bob tro.
- Mewn tua hanner yr ysgolion a arolygwyd, mae gormod o anghysondebau yn ansawdd yr addysgu.
- Mae ansawdd adborth athrawon yn rhy amrywiol ac, yn aml, nid yw'n helpu disgyblion i wella eu gwaith.

Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023

## Gofal, cymorth a lles

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth a chyngor arnynt.
- Yn gyffredinol, mae gofal bugeiliol a chymorth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder. Mae ysgolion wedi canolbwyntio'r bwrpasol ar fynd i'r afael â materion lles ar ôl y pandemig.
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn arwain at ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

### Beth sydd angen ei wella

- Nid yw gwaith i wella presenoldeb wedi arwain at gynnydd amlwg mewn presenoldeb, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023

## Arwain a gwella

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr yn ystyried yr ystod oedran gyfan mewn polisïau ysgol (yn hytrach na pholisïau cynradd ac uwchradd ar wahân).
- Yn gynyddol, mae gan fwy o arweinwyr gyfrifoldebau ysgol gyfan sy'n cwmpasu'r ystod oedran gyfan.
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae trefniadau dysgu proffesiynol wedi'u teilwra i anghenion unigolion a'r ysgol.
- Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi goresgyn y rhwystrau cychwynnol wrth sefydlu fel ysgolion newydd ac mae morâl staff wedi gwella.
- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o fanteision posibl ysgol pob oed ac yn dechrau gwireddu rhywfaint o'r potensial hwnnw.
- Mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn addas, yn enwedig o ran lliniaru effaith tlodi ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

### Beth sydd angen ei wella

- Ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso a gwella yn ddigon da.
- Mewn ychydig o achosion, nid yw llywodraethwyr yn ddigon gwybodus i allu herio arweinwyr ysgolion.
- Mewn ychydig o achosion, caiff cyfnodau cynradd ac uwchradd eu hystyried yn unedau ar wahân ac nid ydynt yn adlewyrchu gwir natur ysgol pob oed.

Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023

## Trosolwg o argymhellion o arolygiadau

**6**

**Arolygwyd chwe ysgol pob oed yn 2022-2023**

**4**

Cafodd pedair ysgol argymhelliad i wella hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Fel arfer, roedd hwn yn gysylltiedig â gwerthuso addysgu a darpariaeth o ran eu heffaith ar safonau disgyblion.

**3**

Roedd yn ofynnol i dair ysgol wella ansawdd yr addysgu ac roedd angen i'r un gyfran wella agweddau ar asesu ac effaith adborth.

**5**

Roedd angen i bum ysgol a arolygwyd wella darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol. Roedd yr argymhellion hyn yn cyfeirio'n bennaf at gynllunio cydlynus i ddatblygu medrau disgyblion. Fodd bynnag, mewn un ysgol, gwnaed hyn yn arbennig o dda ac fe arweiniodd at astudiaeth achos.

**3**

Mewn tair ysgol, roedd nifer ac amrywiaeth y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 yn gyfyngedig, yn enwedig yr amser sy'n cael ei glustnodi ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh).

**3**

Ers y pandemig, mae lefelau presenoldeb wedi gostwng yn sylweddol. Mae angen i lefelau presenoldeb mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd wella, er gwaethaf y ddarpariaeth a'r gweithdrefnau cadarn yr oedd ganddynt ar waith.

**1**

Un ysgol yn unig a gafodd argymhelliad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a chyhoeddwyd llythyr lles.

Crynodeb sector

# Pob oed

2022-2023

## Cwestiynau myfyriol

Cwestiynau i helpu ysgolion i **fyfyrio ar addysgu a medrau**:

- Pa mor dda y mae addysgu'n herio ac yn ennyn diddordeb disgyblion o bob oed a gallu?
- Pa mor gywir yw'r gwerthusiad o ansawdd yr addysgu? Pa mor dda y mae'r gwerthusiad o addysgu'n ystyried ei effaith ar gynnydd disgyblion?
- Pa effaith y mae dysgu proffesiynol yn ei chael ar ansawdd yr addysgu?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ystyrlon i ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gwerthuso effaith y cynllunio hwn ar gyfer medrau ar fedrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion?
- A yw'r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion i'w paratoi ar gyfer eu cam dysgu nesaf?

## Arfer effeithiol

I ddarllen am ddarparwyr unigol sy'n gweithio'n effeithiol mewn agweddau penodol o'u gwaith, ewch i'n tudalen crynodeb o arfer effeithiol ar gyfer 2022-2023